
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21

Hydref 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21

Hydref 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Rhun ap Iorwerth AC**
Plaid Cymru



**Alun Davies AC**
Llafur Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AC**
Plaid Brexit

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** .......... **5**

**1. Cyflwyniad** .......... **6**

**2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020-21** .......... **7**

**3. Cyllideb gyffredinol Comisiwn y Cynulliad** .......... **11**

**4. Cynllun Ymadael Gwirfoddol a staffio** .......... **16**

**5. Diwygio trefniadau'r Cynulliad** .......... **21**

**6. Gadael yr Undeb Ewropeaidd** .......... **24**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu rhagor o fanylion am y prosiect meddalwedd deddfwriaeth ym mis Mehefin 2020 pan fydd mwy o fanylion, gan gynnwys costau, am y prosiect yn hysbys a bod y contract wedi'i ddyfarnu. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu manylion i'r Pwyllgor, tua mis Mehefin 2020, am y gwaith cynllunio prosiect tymor hir sy'n cael ei wneud. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adroddiad ariannol blynyddol ar fuddion tymor hir, gan gynnwys arbedion parhaus, y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor gan nodi sut mae'r cynllun wedi cyflawni'r nodau a nodwyd, yn benodol "Cyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau". ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 4.** Gan fod Comisiwn y Cynulliad o'r farn y dylai cefnogaeth staffio'r Comisiynydd Safonau fod y tu allan i gap sefydliad Comisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn argymell bod angen gwneud gwaith i sicrhau bod y Gyllideb ddrafft hon a Chyllidebau drafft y dyfodol yn nodi adnoddau ar gyfer y Comisiynydd Safonau. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, pan fydd y Comisiwn yn gofyn i'r Cynulliad awdurdodi polisïau, yna mae angen rhoi manylion mwy tryloyw i'r Aelodau ar y pryd ynghylch y costau ariannol a'r trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol o amgylch y polisïau hyn, y dylai hyn gynnwys y mecanwaith ar gyfer cyfrifo cynnydd staffio a'r cyfiawnhad dros hyn. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer codi ymwybyddiaeth o roi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau ymgyrch gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth. ........ Tudalen 23

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

**1.** Mae Rheol Sefydlog 20.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

> "Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."[1]

**2.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am adrodd ar y gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn nodi:

> "Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn."[2]

**3.** Trafododd y Pwyllgor Gyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020-21 (y Gyllideb ddrafft) yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2019, a chlywodd dystiolaeth gan:

- Suzy Davies AC, Comisiynydd Cyllideb a Llywodraethu;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad;
- Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[1] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[2] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020-21

## Y Cyd-destun

**4.** Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Ddatganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (cyrff a ariennir yn uniongyrchol) er mwyn eu hystyried wrth baratoi cynigion cyllidebol:

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol:

- Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.
- Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.
- Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.
- Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.[3]

**5.** Cyfanswm y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 yw £61.052 miliwn ar ôl addasiad y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Comisiwn y Cynulliad (y Comisiwn) yn cyflwyno'r gyllideb o £39.1 miliwn, cynnydd o 2.7 y cant

[3] Datganiad o Egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol, Mai 2019

mewn gwariant cysylltiedig y Comisiwn neu £1 miliwn, addasiad cyn-IFRS, ac eithrio dibrisiant.[4]

**6.** Cyfanswm y Gyllideb ddrafft y mae'r Comisiwn yn gofyn amdani, gan gynnwys penderfyniad y Bwrdd Taliadau a chyllidebau heblaw arian parod, yw £59.2 miliwn o'i gymharu â £58.0 miliwn yn 2019-20, addasiad cyn IFRS. Mae hyn yn gynnydd o £1.2 miliwn mewn arian parod, neu 2.1 y cant.[5]

## Gosodiad y Gyllideb 2020-21

### Tanwariant y Bwrdd Taliadau a'r Gronfa Prosiect

**7.** Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor ar ddefnydd Comisiwn y Cynulliad o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau[6], mae'r Comisiwn bellach yn dychwelyd unrhyw danwariant o'r Penderfyniad i Gronfa Gyfunol Cymru.

**8.** Mae cyllideb 2020-21 yn nodi, "nid yw'r Comisiwn bellach yn defnyddio unrhyw danwariant o'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau er mwyn ariannu prosiectau".[7]

**9.** Mae Cronfa Prosiect y Comisiwn bellach yn cael ei hariannu gan y gyllideb gwariant cyfalaf ynghyd ag unrhyw danwariant cysylltiedig o'r gyllideb weithredol.

### Swyddi Gwag / Newid Staff

**10.** Yng nghyllideb y Comisiwn ar gyfer 2019-20 cafodd darpariaeth swyddi gwag/newid staff (h.y. cyllideb a ryddhawyd oherwydd swyddi gwag staff) o £500,000 ei chynnwys ar gyfer staffio'r Comisiwn a £500,000 ar gyfer cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chostau cysylltiedig.[8]

**11.** Mae Cyllideb ddrafft 2020-21 yn cynnwys y ddarpariaeth swyddi gwag/newid staff, sydd wedi cynyddu i £1 miliwn (ar gyfer staffio'r Comisiwn a chyflogau Aelodau'r Cynulliad a chostau cysylltiedig) i adlewyrchu'r ffaith bod lefelau staffio

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalennau 7 a 31

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 31

[6] Y Pwyllgor Cyllid, Defnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2018

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 19

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-20, tudalennau 38 a 40

ym mlwyddyn olaf y Cynulliad yn annhebygol o gael ei gynnal ar yr un lefelau ag yn ystod gweddill cyfnod y Cynulliad.[9]

**12.** Esboniodd y Comisiynydd fod y ddarpariaeth swyddi gwag/newid staff o £1 miliwn sy'n ymwneud â chyflogau Aelodau'r Cynulliad a chostau cysylltiedig yn amcangyfrif mwy cywir, ac os nad yw'r ffigur hwn yn gywir byddai'r Comisiwn yn cyflwyno cyllideb atodol ar gyfer arian ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru.[10]

**13.** Mewn perthynas â staffio'r Comisiwn, esboniodd y Prif Weithredwr fod y Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) wedi achosi llawer o newid mewn staff ond bod disgwyl y bydd hynny'n sefydlogi ar 10 y cant. Fodd bynnag, nododd y Prif Weithredwr yn ddiweddarach o ran staff y sefydliad, os byddant yn mynd y tu hwnt i 497, bydd rhaid iddynt ddelio a materion fforddiadwyedd mewn ffyrdd eraill a dod o hyd i arbedion er mwyn eu hariannu.[11]

**14.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys paragraff "Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth". Mae'r gronfa prosiect yn cynnwys darpariaeth ddangosol o £250,000 ar gyfer "Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth". Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi bod "y Comisiwn yn ystyried ystod o gynigion i gael rhagor o ymgysylltiad gan gymunedau ledled Cymru".[12]

**15.** Trafododd y Comisiynydd sut mae'r Comisiwn yn gwerthuso effaith mentrau blaenorol er mwyn gwella ymgysylltiad â phobl Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes penderfyniad ynghylch y prosiectau y bydd y £250,000 yn eu hariannu, a byddant yn troi at y Cyfarwyddwr Cyfathrebu newydd er mwyn helpu gyda'r penderfyniadau hyn.[13]

## Barn y Pwyllgor

**16.** Nid yw'r Comisiwn bellach yn defnyddio unrhyw danwariant o'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau er mwyn ariannu prosiectau. Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwahanu cyllidebau'r Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r tryloywder y mae hyn yn ei gynnig i'r Cynulliad pan ofynnir iddo gymeradwyo'r cyllid ar gyfer y Comisiwn.

**17.** Mae'r Pwyllgor yn nodi amcangyfrif y Comisiwn o drosiant ychwanegol yn ymwneud â chyllid i fodloni gofynion y Penderfyniad sy'n arwain at etholiad a sut

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 33

[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 70

[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 154

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 21

[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 218-222

y bydd amcangyfrif mwy cywir yn osgoi galwadau diangen ar Gronfa Gyfunol Cymru y gellir eu dychwelyd ar ddiwedd y flwyddyn.

**18.** Fodd bynnag, mae cynnwys newid staff mewn perthynas â staffio'r Comisiwn yn llai eglur, yn enwedig gan fod y Prif Weithredwr wedi nodi bod y gyllideb yn ymwneud â 497 o swyddi'r sefydliad a bydd angen dod o hyd i arbedion pe byddent yn ceisio ehangu tuag at y cap o 501 a nodwyd. Byddai'r Pwyllgor yn rhagweld y dylai newid staff ar gyfer y Comisiwn arwain at arbedion yn bennaf wrth i swyddi aros yn wag pan fyddant yn cael eu llenwi. Nid yw'n glir pam nad yw'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys amcangyfrif mwy cywir o gostau staff am y flwyddyn, heb yr angen am amcangyfrif ar gyfer newid staff. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad gan y Comisiwn ar y ddarpariaeth newid staff.

**19.** Mae'r Pwyllgor yn synnu nad yw'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys cyfeiriadau penodol at y Senedd Ieuenctid, Cynulliad y Dinasyddion na mentrau eraill sy'n gwella ymgysylltiad. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y gronfa ymgysylltu o £250,000 a bod y Prif Weithredwr yn agored o ran y ffordd orau o wario hyn.

**20.** Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod hi'n flaenoriaeth sicrhau bod y Cynulliad yn gwella ymgysylltiad â holl bobl Cymru ac nad yw'r ymgysylltu i gyd wedi'i ganoli yng Nghaerdydd. Barn y Pwyllgor yw mai mater i'r Comisiwn a'i staff yw argymell y ffordd orau o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan sicrhau ar yr un pryd bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor am sicrhau bod yr ymgysylltu yn ystyrlon ac nid yn symbolaidd yn unig.

# 3. Cyllideb gyffredinol Comisiwn y Cynulliad

## Cronfa Prosiect

**21.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys "Cronfa Prosiect" o £1.015 miliwn o refeniw a £500,000 o gyfalaf yn 2020-21. Mae prosiectau gwerth cyfanswm o £1,515,000 y bwriedir eu buddsoddi wedi'u nodi yn Atodiad 3 o'r Gyllideb Ddrafft.

**22.** Mae Tabl 1 yn dangos y prosiectau i'w hariannu gan y Gronfa Prosiect o Gyllideb ddrafft 2020-21.

**Tabl 1: Cronfa Prosiect 2020-21**

| Cronfa Prosiect 2020-21 | Swm £'000 |
|---|---|
| Meddalwedd Legislative Workbench | £600 |
| Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) Comisiwn y Cynulliad - Newid enw | £45 |
| Archifo | £65 |
| Cyfarfod Llawn a Deisebau | £50 |
| Gwefan | £80 |
| Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth | £250 |
| Ffenestri newydd - adolygiad dichonoldeb | £50 |
| Drysau tân newydd | £80 |
| Diogelwch Ffisegol - prosiect oedi - y Senedd | £225 |
| Diogelwch Ffisegol - prosiect oedi - Tŷ Hywel | £70 |
| **Cyfanswm** | **£1,515**[14] |

## Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf: Meddalwedd ddeddfwriaethol

**23.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn manylu ar gaffael meddalwedd ddeddfwriaethol newydd fel prosiect allweddol sy'n cael ei ariannu ar y cyd (ac yn gyfartal) â Llywodraeth Cymru. Trafododd y Pwyllgor hyn gyda'r Comisiwn yn ystod ei waith o graffu ar gyllideb y llynedd[15]. Ar y pryd, roedd cyllideb o £100,000 y flwyddyn ar

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, Atodiad 3, tudalen 36

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraffau 49-55

gyfer 2019-20 a 2020-21 i gynnal y system bresennol, nes y gallai'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru gytuno ar fanyleb y feddalwedd newydd.

**24.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi bod cost y feddalwedd newydd yn debygol o fod tua £600,000 i £2 miliwn, a gallai cost y prosiect i'r Comisiwn fod yn £1 miliwn, ynghyd â £100,000 o gostau cefnogi blynyddol.[16]

**25.** Rhoddodd y Comisiynydd fanylion pellach am y gwaith cwmpasu sy'n ofynnol ar gyfer y feddalwedd ddeddfwriaethol newydd. Esboniodd fod ystod eang o gostau wedi'u darparu gan fod angen cwblhau gwaith ar y gofynion cyffredinol er mwyn pennu'r costau, ac roedd disgwyl y byddai contract yn cael ei roi ym mis Mehefin 2020.[17]

## Defnyddio adnoddau'n ddoeth: Tŷ Hywel

**26.** Fel rhan o'r cytundeb prydles ar gyfer Tŷ Hywel, mae'n ofynnol bod y Comisiwn yn cynnal a chadw'r adeilad mewn cyflwr da.

**27.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Mae'n parhau i fod yn amcan hirdymor y Comisiwn i sicrhau perchnogaeth ar Dŷ Hywel rywbryd yn y dyfodol a byddai buddsoddiad o'r fath yn gyson â'r amcan hwnnw."[18]

**28.** Yn ystod gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2015-16, trafododd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad gyda'r Comisiwn am achos gwerth am arian yn ymwneud â phrynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel. Dywedodd y Comisiwn ei fod wedi cyflwyno cynigion wedi'u costio yn flaenorol i Lywodraeth Cymru yn nodi'r achos gwerth am arian ar gyfer prynu Tŷ Hywel, ond nid oedd y rhain wedi'u dwyn ymlaen.

**29.** Bu'r Pwyllgor Cyllid blaenorol yn trafod, yn seiliedig ar ddatganiadau a wnaed gan swyddogion y Comisiwn yn y sesiwn graffu, fod gan y Comisiwn achos cryf dros brynu Tŷ Hywel o dan fodel buddsoddi-i-arbed. Yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2015-16, argymhellodd y Pwyllgor:

> "bod Comisiwn y Cynulliad yn parhau i chwilio am gyfleoedd i brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel, ac oherwydd nad oes gan Gomisiwn y

[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 20
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 92
[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 22

> Cynulliad y pwerau benthyg gofynnol, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ddifrifol i hwyluso'r pryniant."[19]

**30.** Cynhaliodd y Comisiwn astudiaeth ddichonoldeb yn 2019-20 a oedd yn nodi cost ddangosol ar gyfer y rhaglen o osod ffenestri newydd o £4 miliwn. Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Mae'r gost ddangosol i osod ffenestri newydd yn llawn yn sylweddol a byddai'n anodd ei gynnwys yng nghyllideb weithredol y Comisiwn."[20]

**31.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi y "cynhelir astudiaethau dichonoldeb yn 2020-21 i barhau i ystyried yr opsiynau a'r costau ac i ystyried sut y gallai'r prosiect hwn naill ai gael ei gyflwyno'n raddol, neu ei ariannu fel eitem eithriadol untro yng Nghyllideb y Comisiwn yn y Chweched Cynulliad".[21]

**32.** Mae cronfa prosiect cyllideb 2019-20 yn cynnwys ffigur dangosol o £345,000 ar gyfer gosod ffenestri newydd – Cam 1. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid, wrth iddi ddod yn amlwg bod angen astudiaeth ddichonoldeb lawn, fod y £345,000 hwn wedi cael ei gymryd o gyllideb 2019-20.[22]

**33.** Dywedodd y Comisiynydd fod pob penderfyniad prosiect yn deillio o dair blaenoriaeth strategol y Comisiwn[23], tra soniodd y Prif Weithredwr am y prosesau mewnol ar gyfer cynllunio prosiectau:

> "One of the things we looked at during our capacity review, which is now complete, was how to streamline service planning. We've now got a pretty robust annual cycle that involves the wider leadership team, the executive board, and certain control points with the Commission. This year, the important themes that have been coming out include, obviously, Brexit planning, and we do a lot of scenario-planning exercises to try and foresee the different outcomes and the different stresses there will be on the system, depending on how that works out. We also keep a close eye on our rolling programme of estate maintenance and ICT infrastructure to see whether there are elements of that that are becoming more or less important and bringing forward those, because there are quite often large items of expenditure that

---

[19] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-16, Hydref 2014, tudalen 14

[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 22

[21] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 22

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 136

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 88

> sometimes need to be spread over several years. So, we need to keep those very much in focus to make sure that Assembly Members are well-supported in doing their work and our ICT systems in particular are as robust and flexible as you need them to be."[24]

**34.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, darparwyd mwy o fanylion am y cynllun gosod ffenestri newydd posibl, a thelerau a hyd prydles Tŷ Hywel:

> "we have the option to extend the lease on this building for 25 years, beyond the 13 years still to run on the lease—and it is a full repairing lease—that is one of the larger items of infrastructure spending that is best done in a planned and prudent way."[25]

## Barn y Pwyllgor

**35.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod y prosiect meddalwedd deddfwriaethol yn bwrw ymlaen gyda chyllid ar y cyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r rhesymeg y tu ôl i'r ystod eang o gostau, ond byddai'n croesawu diweddariad ar gostau ar ôl dyfarnu contract y prosiect.

**36.** Dyrannodd y Comisiwn £345,000 tuag at y prosiect newydd i osod ffenestri newydd yn 2019-20. Ni ddefnyddiwyd y cyllid hwn, er bod dogfennaeth y gyllideb yn cyfeirio at astudiaeth ddichonoldeb fanwl yn cael ei chomisiynu yn 2019-20 a gofynnir am £50,000 arall ar gyfer 2020-21 i gynnal astudiaethau dichonoldeb ychwanegol. Nid yw'n glir pam y gofynnodd y Comisiwn am £345,000 yn 2019-20 os na chynhaliwyd astudiaethau dichonoldeb.

**37.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn darparu ffigurau dangosol ar gyfer dwy flynedd gyntaf y Chweched Cynulliad, fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 20.13[26]. Mae ymchwiliadau cychwynnol wedi amlygu bod angen rhaglen fesul cam ar gyfer gosod ffenestri newydd gydag amcangyfrif cost ddangosol o £4 miliwn, ac eto nid yw'r gost ddangosol hon wedi'i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020-21 na chyllidebau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod hi'n bwysig bod penderfyniad i fwrw ymlaen â phrosiect o'r maint hwn yn destun gwaith craffu fel rhan o ystyriaeth cynllunio tymor canolig a thymor hwy ac o'r herwydd byddai'n ddefnyddiol pe bai'r gwariant hysbys hwn yn cael ei gynnwys yn y ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref, paragraff 89

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref, paragraff 115

[26] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**38.** Os bydd y prosiect gosod ffenestri newydd yn parhau, mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod busnesau Cymru yn cael y cyfle gorau i fod yn llwyddiannus wrth gynnig am waith yn ymwneud â'r prosiect, er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni wrth gaffael gan hefyd fuddsoddi mewn busnesau o Gymru.

**39.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod prosiectau tymor hwy posibl yn cael eu nodi, fel y prosiect gosod ffenestri newydd ac opsiynau o ran prydles Tŷ Hywel. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod natur flynyddol ei waith craffu ar y Gyllideb ddrafft, nad yw'n rhoi cyfle i Aelodau graffu ar y cynllunio a'r gwariant prosiect tymor hir a wneir gan y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod prosiectau buddsoddi tymor canolig i hir fel hyn yn cyfiawnhau sesiynau craffu cyfnodol gyda'r Comisiwn. Bydd y Pwyllgor yn ceisio cynnal sesiwn graffu ar waith gynllunio tymor canolig i hir y Comisiwn mewn sesiwn graffu ddynodedig y flwyddyn nesaf a byddai hefyd yn argymell bod Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol yn cynnal ymarfer tebyg yn gynnar yn y Cynulliad nesaf.

**40.** Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad gan y Comisiwn ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid hwyluso prynu Tŷ Hywel.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu rhagor o fanylion am y prosiect meddalwedd deddfwriaeth ym mis Mehefin 2020 pan fydd mwy o fanylion, gan gynnwys costau, am y prosiect yn hysbys a bod y contract wedi'i ddyfarnu.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu manylion i'r Pwyllgor, tua mis Mehefin 2020, am y gwaith cynllunio prosiect tymor hir sy'n cael ei wneud.

# 4. Cynllun Ymadael Gwirfoddol a staffio

## Nifer y staff

**41.** Mae Cyllideb ddrafft 2019-20 yn ymrwymo i:

> "reoli ei adnoddau staffio yn gadarn i ddiwallu anghenion y Cynulliad, o fewn y 491 o swyddi penodedig y sefydliad, tan yr etholiad nesaf."[27]

**42.** Yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20, argymhellodd y Pwyllgor:

> "Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai unrhyw benderfyniadau o ran staffio gael eu hystyried o ddifri gan y Comisiwn, gan gynnwys unrhyw Gynllun Ymadael Gwirfoddol, a dylai unrhyw gynllun o'r fath gael ei gysylltu'n agos â chanfyddiadau'r Adolygiad Capasiti diweddar."[28]

**43.** Ym mis Mai 2019, ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor yn nodi:

> "Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2019, trafododd y Comisiwn gynigion i lacio cap y sefydliad o 491 o swyddi, i ddarparu adnoddau ychwanegol, yn bennaf i wynebu heriau Brexit. Roedd y Comisiwn yn cydnabod y pwysau ac roedd yn gefnogol mewn egwyddor, ond gofynnodd am ragor o fanylion am y nifer yr adnoddau ychwanegol a ddisgwylir, a sicrwydd y gellid eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol."[29]

**44.** Roedd y llythyr hwn yn nodi bod y Comisiwn wedi cytuno i gynyddu cap y sefydliad chwe swydd, o 491 i 497.[30] Fodd bynnag, mae Cyllideb ddrafft 2020-21 yn nodi:

> "Yn 2019, cytunodd y Comisiwn i gynyddu nifer y swyddi sefydledig o 491 i 501, eto i fodloni gofynion paratoadau Brexit."[31]

**45.** Mae'r Gyllideb ddrafft hefyd yn cyfeirio at ddau aelod o staff sydd "wedi'u dynodi'n adnodd staff pwrpasol ar gyfer y Comisiynydd Safonau" a gafodd "eu hariannu o arbedion swyddi gwag o ganlyniad i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol" yn

[27] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-20, Medi 2018, tudalen 15

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20, Hydref 2018

[29] Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Mai 2019

[30] Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Mai 2019

[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 8

2019-20. Mae dogfen y gyllideb yn nodi bod y "ddwy swydd hyn y tu allan i sefydliad 501 y Comisiwn".[32]

**46.** Gosodwyd y gyllideb ar gyfer y Cynllun Ymadael Gwirfoddol i ddechrau ar £800,000. Yna, cynyddwyd hyn yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol i £950,000 ac yna ymhellach i £1.016 miliwn.[33]

**47.** Nodwyd nodau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol fel a ganlyn:

- "Caniatáu i'r sefydliad ymateb i newidiadau yn y math o sgiliau sydd eu hangen arno;
- Gwella effeithlonrwydd y gweithlu;
- Hwyluso newid sefydliadol;
- Cyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau."[34]

**48.** Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adroddiad ynghylch Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru[35] yn 2015. Argymhellodd yr adroddiad hwn y "dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio achosion busnes wrth ymdrin â phob ymadawiad cynnar unigol. Dylai'r achosion busnes ganfod beth yw cost ymadawiad yr unigolyn a beth yw'r goblygiadau o ran darparu gwasanaethau, gan ystyried hefyd sut y bwriedir cynllunio'r gweithlu yn fwy cyffredinol".

**49.** Er bod y 24 o aelodau staff a adawodd dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi gwneud hynny ar ôl 31 Mawrth 2019, mae'r costau wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19.[36] Ceisiwyd cyllideb gymeradwy gan Swyddfa'r Cabinet, a rhoddwyd cymeradwyaeth am hyd at £1.5 miliwn. Mae'r cyfrifon yn dangos mai £1.016 miliwn yw cost y Cynllun Ymadael Gwirfoddol (tudalen 61). Ariannwyd hyn o danwariant "cyflogau staff a chostau cysylltiedig", a ddaeth yn sgil trosiant staff uwch na'r arfer. Mae costau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi'u cynnwys yn y "costau nad ydynt yn staff".

---

[32] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 9

[33] Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Mai 2019

[34] Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Mai 2019

[35] Swyddfa Archwilio Cymru, Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru, Chwefror 2015

[36] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Gorffennaf 2019

**50.** Gadawodd dau gyfarwyddwr o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ar gost o £115-130,000 i bob cyfarwyddwr. Darperir ar gyfer y ddau daliad o fewn cyfrifon 2018-19 a'u talu yn 2019-20.

**51.** Gan esbonio'r lefelau staffio, dywedodd y Prif Weithredwr:

> "…we focused on the posts, and the number of posts that we had in that year was 491, and so we undertook to keep that stable for a year, which we did. Beyond that, we started to encounter the drawbacks of just focusing on establishment numbers, as opposed to affordability in the budget, because there was a danger that there would be grade inflation in the staff numbers, because we were encountering new, higher needs, and needing to respond to that without increasing the sheer numbers of staff. So, even though we did our best to restrain numbers by putting forward the voluntary exit scheme, we still felt, beyond that, we needed a little bit of headroom again.
>
> So, from 491, we asked the Commission whether we could increase by up to 10, which they agreed to, which would be 501. In the event, we only took permission to recruit six of those posts, which put us up to 497. So, 497 is what we have budgeted for next year. If we go beyond that 497, we will have to deal with affordability issues in other ways and find savings to fund those.
>
> The two posts for the standards commissioner are probably worth mentioning particularly. There is an important principle that the staff who work for the standards commissioner are separate and independent, so that the separation of his duties is respected. The standards commissioner's most recent annual report shows that his workload has doubled, and whereas the work supporting the standards commissioner used to, years ago, be deliverable with just part of one member of staff—so, the most practical solution was for a member of staff to be partially working for us and partially working for the standards commissioner; that was enough and it was a practical and prudent solution to providing that staff resource—now, we need two full-time members of staff working for him. So although we found the budget, we then run up against the staff numbers. So that is a new and separate function that we consider to be outside the 497 establishment number."[37]

[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraffau 153-155

## Barn y Pwyllgor

**52.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth ar lefelau staff y Comisiwn. Yn flaenorol, argymhellodd y Pwyllgor y dylid rheoli y cynnydd mewn staff, ac ymrwymodd y Comisiwn i aros o fewn y cap o 491 trwy gydol y Cynulliad hwn. Ym mis Mai 2019, dywedodd y Comisiwn[38] wrth y Pwyllgor fod "cap y sefydliad" wedi codi o 491 i 497. Felly, mae'r Pwyllgor yn synnu bod y Gyllideb ddrafft yn manylu ar gap o 501 gyda'r ychwanegiad o ddau aelod arall o staff y comisiwn sydd wedi'u cynnwys fel staff y tu allan i'r "cap" hwn, gan fynd â "chap y sefydliad" i 503.

**53.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oes mwy o dryloywder wrth wneud penderfyniadau ynghylch nifer staff, yn enwedig yn sgil y Cynllun Ymadael Gwirfoddol diweddar a ryddhaodd 24 aelod o staff.

**54.** Barn y Pwyllgor yw y dylid defnyddio Cynllun Ymadael Gwirfoddol sy'n rhyddhau 24 aelod o staff ac sy'n cynnwys taliadau diswyddo gwirfoddol sylweddol, fel y ddau daliad a oedd yn fwy na £100,000, dim ond lle mae tystiolaeth o ailstrwythuro neu newid sylweddol. Hyd yn hyn, nid yw'r Pwyllgor wedi gweld tystiolaeth ddigonol o'r math hwn o newid ac mae'n siomedig na fydd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn arwain at unrhyw arbedion, yn enwedig o ran nifer y staff.

**55.** Ym mis Mai 2019 ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiwn yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer y Cynllun Ymadael Gwirfoddol:

> "byddem yn disgwyl i gynlluniau o'r fath roi gwybodaeth glir am yr arbedion disgwyliedig o'r gwariant cysylltiedig a rhoi syniad o'r cyfnod ad-dalu y mae'r sefydliad yn disgwyl gwneud arbedion hyn drosto."[39]

**56.** Mae'r Pwyllgor yn disgwyl diweddariadau rheolaidd ar ganlyniadau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, o gofio'r arian cyhoeddus sylweddol dan sylw. Er enghraifft, dylai adroddiad ariannol ar gostau a buddion tymor hir fod yn arfer safonol. Mae'r Pwyllgor yn nodi awgrym y Comisiwn, oherwydd y galw cynyddol am adnoddau gan y Comisiynydd Safonau, yr ystyriwyd bod dau aelod o staff y Comisiwn sy'n cefnogi gwaith y Comisiynydd Safonau ar hyn o bryd yn uwch na chap y sefydliad. Er ein bod yn cydnabod y cynnydd yn yr adnoddau sy'n ofynnol gan y Comisiynydd Safonau, dyma'r tro cyntaf y bu unrhyw arwydd bod swyddi sy'n cefnogi'r Comisiynydd Safonau yn cael eu hystyried y tu allan i swyddi craidd y Comisiwn.

[38] Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Mai 2019

[39] Llythyr at Gomisiwn y Cynulliad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 24 Mai 2019

**57.** Yn sgil y newidiadau i'r ffordd y mae'r Comisiwn yn ystyried cefnogaeth y Comisiynwyr Safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mwy o dryloywder ac atebolrwydd, o ran sut mae'r Comisiynydd Safonau yn cael ei ariannu o gyllideb y Comisiwn a sut mae hyn yn effeithio ar lefelau staffio'r Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod galw cynyddol ar y Comisiynydd Safonau ac mae gofyniad statudol i gefnogi'r Comisiynydd Safonau.

**58.** Mae'r Pwyllgor yn credu, pan ofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo polisïau'r Comisiwn sy'n debygol o gael effaith ar naill ai adnoddau'r Comisiwn ei hun neu'r adnoddau y bydd eu hangen ar y Comisiynydd Safonau i gyflawni ei rôl yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ceisiadau hyn yn cyflwyno dadansoddiad o weithgarwch a chostau disgwyliedig hefyd. Yna dylai'r wybodaeth hon gael ei hadlewyrchu mewn cyllidebau sy'n gofyn am adnoddau i fodloni gofynion polisïau newydd.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adroddiad ariannol blynyddol ar fuddion tymor hir, gan gynnwys arbedion parhaus, y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor gan nodi sut mae'r cynllun wedi cyflawni'r nodau a nodwyd, yn benodol "Cyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau".

**Argymhelliad 4.** Gan fod Comisiwn y Cynulliad o'r farn y dylai cefnogaeth staffio'r Comisiynydd Safonau fod y tu allan i gap sefydliad Comisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn argymell bod angen gwneud gwaith i sicrhau bod y Gyllideb ddrafft hon a Chyllidebau drafft y dyfodol yn nodi adnoddau ar gyfer y Comisiynydd Safonau.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, pan fydd y Comisiwn yn gofyn i'r Cynulliad awdurdodi polisïau, yna mae angen rhoi manylion mwy tryloyw i'r Aelodau ar y pryd ynghylch y costau ariannol a'r trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol o amgylch y polisïau hyn, y dylai hyn gynnwys y mecanwaith ar gyfer cyfrifo cynnydd staffio a'r cyfiawnhad dros hyn.

# 5. Diwygio trefniadau'r Cynulliad

**59.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys £500,000 ar gyfer etholiadau neu wariant cyn etholiad. Mae hon yn gyllideb wedi'i neilltuo ar wahân a bydd unrhyw danwariant yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.[40]

## Cyfathrebu / Ymgysylltu

**60.** Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol[41] i'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) (y Bil), mae'r Comisiwn yn bwriadu ymgymryd â rhaglen gyfathrebu yn seiliedig ar newid yr enw, gan ymgysylltu â phobl Cymru ar y trefniadau cyfansoddiadol cyfredol, a phwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad. Mae'r Gronfa Prosiect yn cynnwys £45,000 yn benodol mewn perthynas â'r gweithgareddau newid enw.[42]

**61.** O ran pleidleisiau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed, bydd mwyafrif y costau ymgysylltu hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2020-21 ac maent wedi'u cynnwys yng nghostau cyn etholiadau y Comisiwn sydd wedi'u neilltuo. Mae'r gyllideb ar gyfer "costau cysylltiedig ag etholiad" 2020-21 yr un fath â'r gyllideb yn 2015-16.[43] Mae cyfrifon 2015-16[44] yn nodi bod £427,000 o'r cyllid etholiadau hwn wedi cael ei wario.

**62.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi bod gwaith a wneir gan y Comisiwn yn debygol o ganolbwyntio ar:

- "greu deunyddiau yn y cyfnod ar ôl pasio'r Bil, a chyn bod disgwyl i ddeunyddiau rhanddeiliaid eraill fod ar gael;
- y cyfnod yn union cyn etholiad 2021;
- deunyddiau sy'n canolbwyntio ar swyddogaeth y Cynulliad, ac etholiadau'r Cynulliad."[45]

---

[40] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 10
[41] Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Chwefror 2019
[42] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, Atodiad 3, tudalen 10
[43] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalennau 10 a 14
[44] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyflawni a phontio: Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16, Gorffennaf 2016
[45] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 15

## Y Comisiwn Etholiadol

**63.** Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch diwygiadau posibl i'r Bil, nid oes unrhyw gyllideb wedi'i chynnwys yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau datganoledig yng Nghymru rhwng 2021-22, nac unrhyw gostau cysylltiedig eraill.

> "Nid yw'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen gyllideb hon yn cynnwys cyllideb ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau datganoledig yng Nghymru o 2021-22 nac unrhyw gostau cysylltiedig eraill."[46]

**64.** Mae unrhyw gostau i gwrdd â chyllid y Comisiwn Etholiadol yn debygol o gael eu talu o'r £500,000 y gofynnwyd amdano yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer etholiadau, neu wariant cyn yr etholiad.

**65.** Pan ofynnwyd a oedd y £500,000 ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad yn ddigonol, dywedodd y Prif Weithredwr fod yr amcangyfrifiad yn seiliedig ar gost etholiad 2015-16.[47]

**66.** Gofynnodd y Pwyllgor ynghylch costau i ariannu gwaith y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru. Dywedodd y Comisiynydd nad oedd cyllideb wedi'i chynnwys ar gyfer hyn a dywedodd y Prif Weithredwr fod ystyriaethau cychwynnol yn dangos y byddai angen un aelod ychwanegol o staff i ddelio â threfniadau'r Comisiwn Etholiadol.[48]

### Barn y Pwyllgor

**67.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant etholiadau lawer uwch na'r gwariant mewn etholiadau blaenorol[49], sy'n syndod o ystyried y gwaith ychwanegol arfaethedig o godi ymwybyddiaeth ar gyfer pleidleisiau yn 16 a 17. (Mae Argymhelliad 6 isod yn dibynnu ar basio y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

**68.** Er ein bod yn cydnabod nad yw'r costau sy'n gysylltiedig â gwaith y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru yn hysbys eto, yn seiliedig ar y ffigurau sydd

[46] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 15
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 193
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraffau 200-201
[49] £442,000 yn 2011-12 a £427,000 yn 2015-16

eisoes yn gyhoeddus, mae'n syndod nad yw'r gyllideb ddrafft yn cynnwys unrhyw gyllid ar gyfer y gwaith hwn.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer codi ymwybyddiaeth o roi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau ymgyrch gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth.

# 6. Gadael yr Undeb Ewropeaidd

**69.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi sut mae cynllunio senarios wedi helpu i asesu beth allai gwahanol senarios Brexit ei olygu i fusnes y Cynulliad a'r adnoddau sy'n ei gefnogi.

**70.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi y byddai Brexit heb gytundeb yn golygu bod costau contract gwasanaeth a chyflenwi mawr "yn debygol o gynyddu".[50]

**71.** Yn ogystal, mae staff y Comisiwn wedi gweld cynnydd sylweddol yn llwyth gwaith Pwyllgorau sy'n ystyried materion yn ymwneud â Brexit. Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi, beth bynnag fydd canlyniad Brexit, bod y Comisiwn yn disgwyl i lefelau uwch o weithgaredd ar ddeddfwriaeth barhau.[51]

**72.** Mae dogfen y Gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Bydd angen i bwyllgorau'r Cynulliad ymateb i'r pwysau hyn a bydd y Bwrdd Gweithredol yn parhau i adolygu capasiti'r staff i reoli adegau prysur."[52]

**73.** Amlinellodd y Prif Weithredwr rai o'r materion sy'n wynebu'r Comisiwn wrth baratoi ar gyfer Brexit, dywedodd:

> "Tu hwnt i'r effaith ar ein prosesau statudol ni, a'r mater o weithio gyda chyfreithwyr a chlercod, yna rŷn ni wedi bod yn cyfarfod fel tîm staff yn wythnosol i flaengynllunio, ac i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwybod beth fyddai oblygiadau gwahanol ddatblygiadau. Rŷn ni'n teimlo bod unrhyw effaith o safbwynt caffael yn mynd i fod yn rhywbeth gallwn ni ymdopi ag e o fewn y gyllideb yma. Rŷn ni wedi amcangyfrif, o bosib, £50,000 i £100,000 o gostau ychwanegol os bydd cyfraddau cyfnewid arian parod yn newid, os bydd rhai elfennau o'n technoleg gwybodaeth ni yn mynd yn ddrutach. Mae gyda ni nifer fach iawn o staff sydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol oherwydd eu bod nhw'n ddinasyddion Ewropeaidd; mae hwnna eto yn rhywbeth rŷn ni'n cadw llygad arno fe. Ond rŷn ni yn cadw golwg fanwl, fel y byddech chi'n disgwyl, ar y goblygiadau hynny. Ond y prif oblygiad yw'r goblygiad rŷn

[50] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 17
[51] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 17
[52] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21, tudalen 17

ni wedi bod yn ymdopi ag e yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gynnydd sylweddol yn y busnes."[53]

## Barn y Pwyllgor

**74.** Hoffai'r Pwyllgor gydnabod gwaith staff y Comisiwn o ran prosesu gwaith yn gysylltiedig â Brexit, yn enwedig y nifer fawr o offerynnau statudol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu nodyn ar waith cynllunio'r Comisiwn ar gyfer "senarios gwaethaf" Brexit.

[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2019, paragraff 208